Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen Rhos
# Heol Copperworks
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 2NG

# Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pen Rhos

Mae Ysgol Pen Rhos yn ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar yn sgil uno dwy ysgol yn Llanelli, o fewn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Mae 447 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 23 o blant sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan amser.  Mae'r ysgol yn trefnu disgyblion yn bedwar dosbarth cyfrwng Cymraeg ac 13 dosbarth cyfrwng Saesneg.

Ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 34% o ddisgyblion wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%.  Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion addysgol arbennig gan oddeutu 37% o ddisgyblion.  Mae hyn yn sylweddol uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.  Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig ddisgyblion ac mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Daw ychydig ohonynt o gefndir lleiafrif ethnig.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2016.  Dyma'r tro cyntaf i Estyn arolygu'r ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod effeithiol ac arloesol sydd â gweledigaeth glir iawn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol, gyda lles yn ganolog iddi.  Yn y cyfnod byr iawn ers sefydlu'r ysgol, mae arweinwyr wedi sicrhau bod yr ysgol wedi datblygu'n sefydliad dysgu rhagweithiol a bywiog, sy'n gwerthfawrogi pob un o'i ddisgyblion a'i staff.

Mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl.  Maent yn creu amgylchedd gweithio digynnwrf a phwrpasol, ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol.  Mae gan yr holl staff berthynas waith gynhyrchiol a chadarnhaol gyda phob disgybl.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu profiadau dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn fodelau rhagorol o ran y Gymraeg ac yn hyrwyddo'r iaith yn naturiol ac yn gynhwysol yn y dosbarth a thu hwnt.  Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n barchus ar ei gilydd wrth drafod gwaith, ac yn datblygu gwydnwch er mwyn dyfalbarhau â'u tasgau.  Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o symbyliad a balchder yn eu gwaith.  Ar y cyfan, maent yn datblygu'u medrau'n gyson ar draws y cwricwlwm a gwnânt gynnydd gwerthfawr o'u mannau cychwyn.

Mae arweinwyr yn gweithredu strategaethau gwahanol i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.  Fodd bynnag, mae lefelau presenoldeb wedi aros yn isel dros gyfnod, o gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg eraill.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau disgyblion ymhellach yn holl feysydd y cwricwlwm

A2 Codi lefelau presenoldeb

A3 Datblygu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn datblygu'u gwaith ymhellach

A4 Datblygu hyder disgyblion i gyfrannu at bob agwedd ar eu dysgu a'u profiad ysgol, a dylanwadu ar yr agweddau hynny

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â chefnogi lles disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando yn fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn talu sylw manwl i'w hathrawon ac yn gwrando'n barchus ar ei gilydd wrth drafod gwaith, er enghraifft gyda'u partneriaid meddwl. Mae bron pob un ohonynt yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn datblygu'u meddwl yn effeithiol wrth drafod syniadau am hysbysebu bwyd iach. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o Gymraeg llafar a defnyddiant yr iaith yn fuddiol yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn gwneud cynnydd cryf o ran eu geirfa Gymraeg a'u patrymau iaith, a siaradant yr iaith yn naturiol gyda'u ffrindiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cyson wrth ddysgu darllen. Datblygant ddealltwriaeth sicr o lythrennau a seiniau ac maent yn dadgodio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn dechrau darllen gyda mynegiant, er enghraifft wrth ddarllen am anifeiliaid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn effeithiol. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o giwiau llun i'w helpu i ddeall eu storïau, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio cyd-destun yn briodol i helpu gyda'u dealltwriaeth o'r testun. Maent yn darllen ar goedd yn glir, gyda mynegiant da ac yn ychwanegu diddordeb weithiau trwy fabwysiadu lleisiau cymeriadau. Defnyddiant y rhyngrwyd i gasglu a chyfuno gwybodaeth yn llwyddiannus, er enghraifft ar ba mor bell y mae gwahanol fwydydd yn teithio i gyrraedd yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth ddigon eang o ddibenion. Defnyddiant atalnodi sylfaenol yn fedrus ac maent yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnwys geirfa ddisgrifiadol effeithiol yn eu gwaith ysgrifenedig ac maent yn rhoi cynnig call ar sillafu geiriau mwy anodd, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr o gynhwysion ar gyfer ffisig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn effeithiol a dangosant ymwybyddiaeth gynyddol o sut i baru'u harddull yn addas i'w diben. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn fuddiol ar draws y cwricwlwm wrth ysgrifennu ansoddeiriau diddorol ar gyfer cerdd rysáit ar Gymru. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu Cymraeg yn effeithiol yn y 'Cwtch Cymraeg' ac yn ysgrifennu am eu hoff chwaraeon ar y 'Wal Graffiti'. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus a dangosant falchder a pharch yn eu llwyddiannau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwybod bob amser sut i ddatblygu a gwella'u gwaith ymhellach.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol. Maent yn datrys problemau rhif yn hyderus ac yn adalw ffeithiau rhif syml yn gyflym wrth drefnu rhifau hyd at ugain ar linell sychu dillad. Maent yn llwyddo i gymhwyso'r hyn a ddysgont mewn sefyllfaoedd newydd, mewn

meysydd dysgu awyr agored difyr. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'u medrau mesur yn llwyddiannus gan ddefnyddio milimetrau wrth gymysgu hylifau i wneud siampŵs gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol. Datblygant eu gwaith rhif yn effeithiol wrth drefnu taith i barc thema, trwy gyfrifo'r gwerth gorau am arian. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn datblygu'u medrau'n hyderus wrth fesur gwahanol rannau o'r corff mewn centimetrau a metrau i greu sgerbwd dynol. Ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio meddalwedd ddigidol i gyfrifo arwynebedd a pherimedr adeilad a thir yr ysgol fel rhan o ddatblygu safle newydd yr ysgol. Datblygant eu medrau rhifedd yn effeithiol trwy ddarllen graddfeydd gwahanol ar fapiau i ddylunio lle chwarae creadigol ac ysgogol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus, er enghraifft mewn gweithgareddau datrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio ystod effeithiol o wybodaeth ac offer a meddalwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn mynd at eu cyfrif ar-lein eu hunain yn annibynnol wrth arbed eu gwaith a mynd ato. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio dyfeisiau electronig, fel tiliau syml, yn yr ardal chwarae rôl, er enghraifft wrth brynu eitemau gwahanol o siop y dosbarth. Defnyddiant feddalwedd prosesu geiriau yn llwyddiannus a hefyd graffigwaith i ychwanegu at eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu data am daldra aelodau'r dosbarth ac yn gwneud penderfyniadau am ba fformat sydd fwyaf effeithiol i ddangos eu canlyniadau ar ffurf graffigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnal eu cynnydd mewn medrau trwy ddefnyddio amrywiaeth effeithiol o gyfarpar TGCh i ymestyn eu dysgu. Maent yn arbed eu gwaith ac yn mynd ato yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 yn defnyddio cronfeydd data yn effeithiol i ddarganfod ac arddangos gwybodaeth. Defnyddiant feddalwedd cyflwyno yn llwyddiannus, er enghraifft wrth arddangos rhith-gapsiwl amser o flwyddyn benodol. Cyflwynant wybodaeth hanesyddol gan ddefnyddio technoleg sgrin werdd, er enghraifft wrth roi cyflwyniad i aelodau eraill y dosbarth ar daith gyntaf y Titanic.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n unigolion hyderus a pharchus o fewn ethos hynod gefnogol a chynhwysol yr ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a gwyddant at bwy i droi os byddant yn pryderu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gweithgareddau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn parchu gwerthoedd yr ysgol ac yn cymdeithasu â'u ffrindiau mewn modd gofalgar. Mae Bydis Amser Chwarae yn dangos lefelau uchel o ofal ac ystyriaeth wrth iddynt helpu disgyblion eraill yn ystod amser egwyl.

Mae gan bron pob disgybl berthynas gref â staff a chymheiriaid. Maent yn magu hyder ac yn datblygu gwydnwch cynyddol i ddyfalbarhau â'u tasgau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o symbyliad a balchder yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn amcangyfrif ac yn mesur gwrthrychau yn yr amgylchedd awyr agored yn hyderus, gyda mwy a mwy o annibyniaeth.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch tuag at eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn 'Athrawon dan hyfforddiant' i gefnogi'u cyfoedion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o'u cyflawniadau ei gilydd ac yn cefnogi'u hymdrechion yn barhaus. Gwrandawant yn astud ar ei gilydd, gan ymateb yn fuddiol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn gwrando ac yn trafod pwysigrwydd rhannu fel rhan o weithgarwch amser cylch.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ddylanwadu ar eu dysgu'u hunain, er enghraifft i ymchwilio i sut mae Goleuni'r Gogledd yn cael ei ffurfio. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymhél â phrofiadau a syniadau anghyfarwydd, newydd yn hyderus, yn canolbwyntio'n barhaus ac yn dyfalbarhau i lwyddo yn eu tasgau, er enghraifft wrth greu rysáit i wneud crymbl i'r Gryffalo, a phan fyddant yn mesur onglau llymion ac aflymion wrth greu llwybr sy'n dilyn taith sgwba-blymiwr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr mwyfwy hyderus ac uchelgeisiol.

Caiff llawer o ddisgyblion gyfle i gyflwyno syniadau ac awgrymiadau trwy amrywiaeth ddefnyddiol o grwpiau disgyblion. Mae'r cyngor ysgol yn annog eu ffrindiau i rannu'u syniadau'n briodol ar sut i ddatblygu'r ysgol, gan ddefnyddio blwch sylwadau. O ganlyniad, maent yn trefnu banc bwyd buddiol a digwyddiad talent yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dylanwadu ar eu dysgu'u hunain nac yn cyfrannu at ddatblygiad yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys codio, ymarfer côr ac amrywiaeth o glybiau chwaraeon. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er enghraifft, gwyddant am bwysicrwydd diogelu eu cyfrineiriau. Mae arweinwyr digidol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u medrau TGCh yn llwyddiannus.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd i wella'u ffitrwydd, fel gwersi yoga yn ddyddiol a her y ras am oes. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd hylendid personol, gan gynnwys gofalu am eu dannedd a golchi'u dwylo. Maent yn creu posteri i hyrwyddo effeithiau diodydd gwahanol ar bydredd dannedd a phwysigrwydd cael dwylo glân.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o'u cymuned leol ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn prosiect entrepreneuraidd sy'n cynnwys creu a gwerthu cynnyrch Cymreig, fel llwyau caru, ym marchnad Llanelli. Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u tasgau creadigol wrth drafod gwaith celf o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion a rhieni'n ymateb yn briodol i ffocws yr ysgol ar wella presenoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn gweithredu strategaethau gwahanol i annog disgyblion i fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, mae lefelau presenoldeb wedi aros yn isel dros gyfnod o gymharu â'r lefelau mewn ysgolion tebyg eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan athrawon a staff cymorth ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Maent yn creu amgylchedd gweithio digynnwrf a phwrpasol, ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu trefn ac arferion ystafell ddosbarth cadarn a chyson i ddisgyblion, sydd o fudd i ddysgu a lles y disgyblion. Mae gan yr holl staff berthnasoedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol gyda'r holl ddisgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu dysgu.

Mae athrawon yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu cyfoethog mewn amgylchedd bywiog, sy'n ennyn diddordebau disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu datblygu'n unigolion creadigol a llawn symbyliad. Maent yn rhannu bwriadau dysgu gyda disgyblion yn gyson, yn gosod cyflymder da i wersi ac yn herio pob disgybl yn bwrpasol. Defnyddiant holi yn effeithiol i annog disgyblion i esbonio'u meddwl a datblygu'u dysgu ymhellach. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at wella dealltwriaeth disgyblion o gyd-destunau newydd ac maent yn eu cynorthwyo i ddatblygu'u medrau yn llwyddiannus. Maent yn cefnogi disgyblion yn sensitif ac yn eu hannog i ddyfalbarhau mewn amgylchedd cynhwysol. Mae'r holl staff yn hyrwyddo ac yn modelu'r iaith Gymraeg i safon uchel iawn. Mae hwn yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Maent yn siarad Cymraeg a Saesneg gyda disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hyder i siarad y ddwy iaith yn y dosbarth a'r tu hwnt.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gweithgareddau. Maent yn eu hannog a'u cynorthwyo yn effeithiol i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Nid yw adborth ysgrifenedig athrawon bob amser yn rhoi dealltwriaeth glir i ddisgyblion o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith eu hunain. O ganlyniad, nid yw ychydig ddisgyblion bob amser yn gwneud digon o gynnydd.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi cael eu gwreiddio'n llwyddiannus. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau'r ysgol er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol, er enghraifft pan fydd disgyblion Derbyn yn gwneud cacen yn y gegin fwd. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethogi yn yr ystafell ddosbarth awyr agored, er mwyn i ddisgyblion ddatblygu'u medrau'n fuddiol a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, er enghraifft wrth drefnu parti i'r Gryffalo. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'u medrau annibyniaeth yn dda yng nghyfnod allweddol 2. Mae staff yn cynnig ystod o weithgareddau a phrofiadau i ddisgyblion gymhwyso'u medrau'n briodol, er enghraifft adrodd a chopïo tablau lluosi ar fwrdd sialc yn yr ysgol Fictoraidd.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar fedrau, sy'n sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion. Maent yn darparu ystod o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a TGCh yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ymestyn profiadau disgyblion trwy drefnu amrywiaeth o deithiau i ategu'u dysgu, er enghraifft i Gastell Cydweli ac i Goedwig Caerffili. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau'n effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur adrodd o Frwydr Hastings a mesur y pellteroedd rhwng cestyll gwahanol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.

Mae staff yn annog y disgyblion i ddefnyddio'u medrau llefaredd Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, caiff disgyblion Blwyddyn 6 gyfleoedd i ddatrys problemau arian trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r iaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae arweinwyr ysgol yn olrhain a monitro cynnydd academaidd y disgyblion yn bwrpasol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Caiff gwybodaeth ei defnyddio'n effeithiol i amlygu a darparu cymorth buddiol i ddysgwyr. Mae athrawon yn darparu ystod helaeth o gymorth ymyrraeth i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol, er enghraifft sesiynau darllen gyda Ruby y ci. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau.

Caiff anghenion lles disgyblion eu nodi'n effeithiol trwy system olrhain sy'n cynnwys arolygon lles a gwybodaeth am bresenoldeb. Defnyddir y system hon yn fedrus i amlygu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Er enghraifft, os nodir bod gan ddisgyblion heriau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol, cânt eu neilltuo i grwpiau ymyrraeth anogol effeithiol neu i sesiynau mentora unigol gyda staff arbenigol.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol sy'n rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol yn gysylltiedig â'u targedau unigol. Maent yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynlluniau unigol disgyblion ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Mae'r ysgol yn mynd ati i helpu rhieni i ddatblygu'u dealltwriaeth o sut i gynorthwyo'u plant. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi gwybod iddynt trwy fapiau defnyddiol o'r cwricwlwm a thaflenni gwybodaeth am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Trefnir sesiynau ymgysylltu teuluol i rieni i gefnogi rhianta cadarnhaol a diogelwch ar-lein. Mae adroddiadau'r ysgol yn cynnig gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant a'u targedau ar gyfer gwella.

Mae athrawon yn trefnu darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddewisiadau ffordd iach o fyw. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn astudio manteision bwyta'n iach ac ymarfer corff fel rhan o'u cwricwlwm gwyddoniaeth. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o swyddog cyswllt yr heddlu a'r nyrs ysgol i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amrywiaeth o faterion diogelwch personol, er enghraifft cadw'n ddiogel ar-lein. Mae trafodaethau effeithiol ar y pynciau hyn yn gwreiddio dealltwriaeth o sut gall dewisiadau gwybodus effeithio ar ffyrdd disgyblion o fyw. Mae'r ardaloedd chwarae awyr agored a'r gweithgareddau allgyrsiol yn rhoi cyfleoedd buddiol ar gyfer ymarfer corff.

Mae llawer o ddisgyblion yn cael cyfleoedd i gynrychioli'r ysgol a bod yn weithgar yn y gymuned, er enghraifft mewn twrnameintiau chwaraeon lleol a gweithgareddau'r eglwys. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u hymwybyddiaeth

gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol o fewn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod a'r jamborî lleol, ac yn dysgu am wyliau a dathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar foesau crefyddol ac ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain yn llwyddiannus. Hefyd, mae disgyblion yn cymharu crefyddau eraill yn werthfawr, fel Hindŵaeth a Bwdhaeth.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o werthoedd ac i wahaniaethu rhwng da a drwg. Gwnânt ddefnydd effeithiol o strategaethau gwahanol i ddatblygu ymdeimlad disgyblion o oddefgarwch tuag at eraill. Maent yn meithrin agweddau cadarnhaol er mwyn rheoli ymddygiadau a chreu amgylchedd dysgu cyfeillgar.

Mae gwersi ac ymweliadau addysgol yn annog disgyblion i ddatblygu'u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r archfarchnad leol ac yn arbrofi â chelf Fictoraidd a cherddoriaeth draddodiadol o Gymru. Mae'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd hollfydol amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cymharu a chyferbynnu hinsoddau ac yn cynnal ymchwiliadau ar y defnydd o afonydd mewn ardaloedd gwahanol ledled y byd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod effeithiol ac arloesol sydd â gweledigaeth glir iawn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar, gyda lles yn ganolog iddi. Caiff ei gefnogi'n effeithiol tu hwnt gan benaethiaid cynorthwyol, athrawon a staff cymorth. Mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol ac i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethogol i ddysgu, o fewn ethos cefnogol a chynhwysol. Yn y cyfnod byr iawn ers sefydlu'r ysgol, mae arweinwyr wedi sicrhau bod yr ysgol wedi datblygu'n sefydliad dysgu bywiog a rhagweithiol, sy'n gwerthfawrogi pob un o'i disgyblion a'i staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llwyddiannus. Mae aelodau'n cyfarfod yn rheolaidd, trwy is-bwyllgorau yn aml, ac yn craffu ar ddarpariaeth a chynnydd yr ysgol yn effeithiol. Maent yn cefnogi'r ysgol trwy gymryd rhan mewn amrediad effeithiol o weithgareddau, fel teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Maent yn siarad â disgyblion ac yn ymwybodol o bwysigrwydd gwrando ar eu barn am yr ysgol. Maent yn rhoi pwys ar gyfleoedd i ddisgyblion gyflwyno gwybodaeth berthnasol iddynt mewn cyfarfodydd. Mae llywodraethwyr yn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth, y tîm arweinyddiaeth a'r arweinwyr pwnc am gynnydd ym meysydd penodol y cwricwlwm. Mae aelodau'n mynychu cyfarfodydd gyda swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, ac yn trafod y camau gweithredu yn sgil yr ymweliadau hyn. Maent yn mynd gydag arweinwyr yr ysgol ar ymweliadau ag ysgolion mewn awdurdodau cyfagos i weld arfer dda a'i rhannu. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gynnydd yn erbyn targedau cytunedig. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol wedi'i datblygu'n llawn, er enghraifft wrth herio'r ysgol ynghylch safonau a chynnydd mewn dysgu.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol a thrylwyr. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn sicrhau bod cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn amrywiaeth eang ac effeithiol o weithgareddau gwerthuso. Maent yn cyflawni'r hyn a alwant yn 8 gweithgaredd hud, sy'n cynnwys teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi, a chraffu ar waith disgyblion a chynllunio gan athrawon. Hefyd, siaradant ag amrywiaeth o ddisgyblion o oedrannau a galluoedd gwahanol, ac maent yn ystyried eu barn wrth asesu'r ddarpariaeth. Maent yn ceisio barn yr holl randdeiliaid yn yr ysgol. Mae prosesau'n agored ac yn ddidwyll, ac yn amlygu cryfderau a gwendidau yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol i osod blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae hon yn ddogfen waith effeithiol, sy'n amlinellu camau priodol i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae cyfrifoldeb am arwain gweithgareddau penodol, neilltuo cyllid, dyddiadau adolygu a meini prawf llwyddiant wedi'u cynnwys. O ganlyniad, mae gan y tîm arweinyddiaeth safbwynt strategol cadarn a thrylwyr am gynnydd yn erbyn targedau penodol, ac effaith camau gweithredu ar gynnydd a lles disgyblion. Er enghraifft, cafwyd effaith gadarnhaol iawn ar safonau yn y Gymraeg ar draws yr ysgol ar ôl rhoi blaenoriaeth i'r agwedd hon yng nghynllun datblygu'r ysgol y llynedd.

Mae arweinwyr yn rhoi ffocws cryf iawn ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu lwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae staff yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol am les disgyblion. O ganlyniad, caiff hyn effaith helaeth a chadarnhaol ar les disgyblion a'u profiadau dysgu yn yr ysgol. Caiff staff gyfleoedd pwrpasol i rannu arfer o fewn yr ysgol ac maent yn ymweld ag ysgolion eraill y mae eu harferion cryf mewn meysydd penodol wedi cael eu cydnabod. Hefyd, rhyddhawyd athrawon i ddilyn cyrsiau sabothol y Gymraeg am 12 mis, gan gymryd cyfrifoldeb am ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar ôl dychwelyd.

Caiff cynorthwywyr addysgu gyfoeth o gyfleoedd dysgu, sydd wedi'u cysylltu'n agos ag anghenion datblygu'r ysgol, er enghraifft ar gefnogi lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan roi cymorth a hyfforddiant yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn defnyddio cryfderau penodol aelodau staff yn effeithiol ac yn cydweithredu'n effeithiol i ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae hyn yn nodwedd arbennig o gref yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli ac yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac yn gwneud penderfyniadau priodol am staffio ac adnoddau. Caiff cyllid ei neilltuo'n briodol, yn ôl meysydd presennol sydd â blaenoriaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau yn effeithiol, gan gynnwys y grant amddifadedd disgyblion, i gefnogi dysgwyr ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod ragorol o adeiladau ac adnoddau, ac mae'n eu defnyddio'n effeithiol iawn. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn braf ac yn groesawgar, ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau creadigol ac annibyniaeth y disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- lle y bo’n briodol, yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019